WHELF

Strategaeth Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru 2020 – 2024

Cydweithio – Creu – Arloesi

Cenhadaeth WHELF yw:

annog cydweithio ac arloesi mewn gwasanaethau llyfrgell, hysbysrwydd a gwybodaeth ledled Cymru



Bydd ein ffordd o weithio yn:

Ein themâu ar gyfer 2020-2024

Cydweithio

Arwain cydweithio mewn gwasanaethau llyfrgell, hysbysrwydd, gwybodaeth a threftadaeth ledled Cymru

Arwain y gwaith o gyfnewid syniadau rhwng ac ymhlith ein haelodau

Datblygu ein Dyfodol Digidol gyda'n gilydd

Cyflawni manteision casgliadau, gwasanaethau a chost i'n defnyddwyr a'n sefydliadau trwy drefniadau cydweithredol ac wedi'u rhannu

Datblygu a chefnogi rhwydweithiau cefnogi llyfrgell, hysbysrwydd, a gwybodaeth ledled Cymru

Darganfod

Defnyddio ein casgliadau treftadaeth, llyfrgell, hysbysrwydd, gwybodaeth a data er budd ein holl ddefnyddwyr

Dathlu casgliadau diwylliannol a threftadaeth Cymru gartref a ledled y byd

Datblygu diwylliannau ysgolheictod agored ac ymchwil agored ar draws ein sefydliadau

Gwella'r trefniadau ar gyfer darganfod a gallu defnyddio ein holl gasgliadau

Galluogi ein casgliadau a'n gwasanaethau i gefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Ymgysylltu

Hyrwyddo llyfrgelloedd, casgliadau a gwasanaethau addysg uwch ac ymchwil Cymru yn lleol a ledled y byd

Meithrin partneriaethau er budd ein gwaith a'n sefydliadau

Eiriol dros werth ein gwasanaethau a'n harbenigedd proffesiynol

Ymchwilio profiadau ein defnyddwyr yn bersonol ac ar-lein

Amrywio ac ehangu ein casgliadau

Dylanwadu ar waith llunio polisi mewn gwasanaethau llyfrgell, hysbysrwydd a gwybodaeth

Datblygu

Archwilio a gwreiddio ffyrdd cadarnhaol o hyrwyddo llesiant gweithluoedd

Deall a datblygu amrywiaeth ein gweithlu

Adnabod a mynd i'r afael â bylchau sgiliau ar draws sefydliadau

Cymell y proffesiwn llyfrgell, hysbysrwydd a gwybodaeth yn yrfa bwysig a boddhaus

Arwain arfer datblygol mewn gwasanaethau llyfrgell, hysbysrwydd, gwybodaeth, treftadaeth ac archifau